



ASA

Prifysgol Aberystwyth

Adolygiad Sefydliadol gan yr Asiantaeth
Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

Mehfin 2012

Cynnwys

Yr adolygiad yma.....	1
Y feirniadaeth ddiwygiedig	2
Canfyddiadau allweddol	3
Beirniadaethau ASA am Brifysgol Aberystwyth	3
Argymhellion	3
Nodweddion o arfer da	4
Canfyddiadau manwl am Brifysgol Aberystwyth	5
1 Fframwaith rheoli academaidd	5
Strwythur y pwyllgorau a'r rheolaeth	5
Defnydd o'r Seilwaith Academaidd.....	6
2 Safonau academaidd.....	7
Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer sicrhau safonau'r dyfarniadau?.....	7
Asesu	7
Arholwyr allanol	8
Gwybodaeth rheoli.....	8
3 Ansawdd cyfleoedd dysgu	8
Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cefnogi dysgu?.....	8
Addysgu wedi'i hysbysu gan ymchwil	9
Datblygiad staff.....	9
4 Trefniadau cydweithredol.....	10
Cymeradwyo partneriaid	11
Monitro ac adolygu mewn darpariaeth gydweithredol	11
5 Gwella ansawdd	12
6 Trefniadau i fyfyrwyr ôl-raddedig.....	12
7 Gwybodaeth gyhoeddus	13
Atodiad A: Ynghylch Prifysgol Aberystwyth	15
Atodiad B: Ymateb gan Brifysgol Aberystwyth.....	17
Rhestr termau.....	18

Yr adolygiad yma

Mae hwn yn adroddiad Adolygiad Sefydliadol o ddarpariaeth safonol a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) ym Mhrifysgol Aberystwyth (y Brifysgol). Mae'r addysg uwch a ddarperir drwy gytundebau partneriaeth gyda sefydliadau eraill (darpariaeth gydweithredol) wedi cael ei adolygu ochr yn ochr â phrif ddarpariaeth addysgol y Brifysgol.

Cafwyd yr adolygiad rhwng 30 Ebrill a 4 Mai 2012 a chafodd ei weithredu gan dîm o chwe adolygwr, fel a ganlyn:

- Dr Christopher Alder
- Yr Athro Peter Bush
- Dr Kathryn Gillen
- Yr Athro Jethro Newton
- Mr Daniel Bowen (adolygwr sy'n fyfyrwr)
- Ms Rachel Lucas (ysgrifenyddes yr adolygiad).

Cydllynwyd yr adolygiad gan yr Athro Peter Hodson, Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn y Grŵp Adolygiadau. Er mwyn dod i'w gasgliadau, siaradodd y tîm adolygu ag aelodau o staff drwy'r Brifysgol gyfan ac â myfyrwyr cyfredol, a darllenodd amrywiaeth fawr o ddogfennau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r Brifysgol yn rheoli agweddau academaidd ar ei darpariaeth.

Prif bwrpas yr adolygiad oedd ymchwilio'r addysg uwch (yn cynnwys darpariaeth gydweithredol) a ddarperir gan Brifysgol Aberystwyth a barnu a yw ei safonau a'i ansawdd academaidd yn cyflawni disgwyliadau'r DU ai peidio. Yn yr adroddiad hwn, mae tîm adolygu ASA:

- yn gwneud beirniadaethau am
 - safonau academaidd trothwy¹
 - ansawdd cyfleoedd dysgu
- yn rhoi sylwadau ar wybodaeth gyhoeddus
- yn gwneud argymhellion
- yn nodi nodweddion o arfer da.

Gallwch weld crynodeb o'r [canfyddiadau allweddol](#) yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 3. Rhoddwyd [esboniadau o'r canfyddiadau](#) mewn paragraffau wedi'u rhifo yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 5.

Mae gwefan ASA yn rhoi rhagor o wybodaeth [am ASA](#) a'i chenhadaeth.² I gael gwybodaeth gefndir am Brifysgol Aberystwyth gwelwch [Atodiad A](#). Mae tudalen benodol ar y wefan yn esbonio'r dull ar gyfer gwneud [Adolygiad Sefydliadol o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru](#)³ ac mae ganddi ddolenni at y llawlyfr adolygiad a dogfennau defnyddiol eraill.

¹ I gael esboniad o'r termau gwelwch y Rhestr Termau ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

² www.qaa.ac.uk/aboutus/pages/default.aspx

³ www.qaa.ac.uk/institutionreports/types-of-review/pages/adolygiad-sefydliadol-cymru.aspx

Y feirniadaeth ddiwygiedig

Cyhoeddwyd adroddiad yr Adolygiad Sefydliadol o Brifysgol Aberystwyth ym mis Mehefin 2012.

Ers y dyddiad hwnnw, gall y tîm adolygu gadarnhau yn awr bod y sefydliad, gan weithio mewn partneriaeth â'r corff myfyrwyr, wedi ymdrin yn foddhaol ag argymhellion cychwynnol y tîm adolygu drwy'r broses o gynllunio camau gweithredu. Yn benodol, mae'r argymhellion hynny a arweiniodd at y feirniadaeth gychwynnol o 'hyder cyfyngedig' yng nghadernid rheolaeth bresennol y darparwr a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academiaidd ei ddyfarniadau mewn darpariaeth gydweithredol, wedi derbyn sylw boddhaol fel a ganlyn.

Roedd yr argymhelliad yn gofyn bod y sefydliad yn adolygu a gwella'r rheolaeth ar drefniadau cydweithredol y Brifysgol. Roedd y tîm adolygu'n glir y byddai'r camau gweithredu y mae'r Brifysgol wedi eu cymryd yn gwasanaethu buddiannau gorau'r myfyrwyr a phartneriaid cydweithredol. Ymysg y camau hyn mae:

- sefydlu Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol a Phartneriaethau
- sefydlu cylch gwaith ar sail arferion gorau o'r sector
- gweithredu llinellau awdurdod clir i awdurdodi camau gweithredu
- creu cofrestr o'r holl weithgareddau
- archwilio'r holl Femoranda Dealltwriaeth i ganfod a ydynt yn gywir a'u 'statws gweithredol'
- cyflwyno Llawlyfr Etholfraint
- cywiro'r wybodaeth ar y wefan a chyflwyno gwiriadau cyfnodol o wefannau partneriaid
- gweithredu templedi safonol ar gyfer yr holl gytundebau cydweithredol.

Nid oedd argymhellion eraill a wnaed gan y tîm adolygu'n cyfrannu at y feirniadaeth o 'hyder cyfyngedig', ond mae'r rhain wedi derbyn sylw hefyd. Mae Cyngor Prifysgol Aberystwyth wedi cymeradwyo a llofnodi'r cynllun gweithredu i ddangos ei fod yn gyflawn.

Mae'r feirniadaeth wedi cael ei haddasu'n ffurfiol erbyn hyn i ddangos bod y tîm adolygu'n cadarnhau bod modd, ers mis Mehefin 2013, rhoi **hyder** yng nghadernid rheolaeth bresennol y darparwr a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academiaidd ei ddyfarniadau mewn darpariaeth gydweithredol, ac y gellir ystyried bod yr adolygiad wedi'i lofnodi i ddangos ei fod yn gyflawn.

Canfyddiadau allweddol

Bu tîm adolygu ASA yn ystyried swm mawr o dystiolaeth yn ymwneud â'r ddarpariaeth addysgol ym Mhrifysgol Aberystwyth, sef gwybodaeth a ddarparwyd o flaen llaw a thystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymweliadau adolygu. Mae'r adolygiad wedi galluogi tîm adolygu ASA i ffurfio tair beirniadaeth am y Brifysgol.

Beirniadaethau ASA am Brifysgol Aberystwyth

Ffurfiodd tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch ym Mhrifysgol Aberystwyth.

- Gellir teimlo **hyder** yng nghadernid rheolaeth bresennol y Brifysgol a'i rheolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academaidd ei dyfarniadau.
- Gellir teimlo **hyder cyfyngedig** yng nghadernid rheolaeth bresennol y Brifysgol a'i rheolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academaidd ei dyfarniadau mewn darpariaeth gydweithredol.
- Gellir teimlo **hyder** yng nghadernid rheolaeth bresennol y Brifysgol a'i rheolaeth debygol yn y dyfodol ar ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr.

Argymhellion

Mae tîm adolygu ASA yn gwneud yr argymhellion dilynol i Brifysgol Aberystwyth.

Buddiol

Mae'r tîm adolygu o'r farn y byddai'n **fuddiol** i'r Brifysgol:

- adolygu'r broses gymeradwyo ar gyfer darpariaeth dysgu o bell, gan dalu sylw dyledus i'r *Cod ymarfer ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd mewn addysg uwch (Cod ymarfer), Adran 2: Darpariaeth gydweithredol a dysgu hyblyg a dosranedig (gan gynnwys e-ddysgu)* (paragraff 1.1.6)
- ddarparu goruchwyliaeth ganolog ar effaith newid cronol ar raglenni (paragraff 2.1.2)
- adolygu cymhlethdod rheolau, rheoliadau a strwythurau rhaglen i sicrhau mwy o gydraddoldeb ym mhrofiad y myfyrwyr (paragraff 2.2.4)
- ddatblygu a chyhoeddi cofrestr gynhwysfawr o weithgareddau partneriaeth gydweithredol (paragraff 4.2.2)
- ddarparu a gweithredu arweiniad gweithdrefnol cynhwysfawr ar ddarpariaeth partneriaeth gydweithredol (paragraff 4.3.2)
- sicrhau bod manylebau rhaglenni a gyhoeddir ar y we yn gyflawn ac yn gyfredol (paragraff 7.1.2)
- sicrhau bod y Brifysgol a'i phartneriaid yn cyhoeddi gwybodaeth gywir am ddarpariaeth gydweithredol (paragraff 7.1.3).

Manteisiol

Mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fanteisiol** i'r Brifysgol:

- wneud adolygiadau rheolaidd o'r polisi derbyn (paragraff 1.2.2)
- sicrhau bod yr holl ganlyniadau dysgu'n adlewyrchu'n briodol y *Fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) (paragraff 1.2.3)

- wneud gwell defnydd o ddata gwybodaeth rheoli i fonitro perfformiad myfyrwyr (paragraff 2.4.2).

Nodweddion o arfer da

Canfu tîm adolygu ASA y **nodweddion o arfer da** dilynol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

- Dull integredig yr uwch-reolwyr academaidd o ostwng anghysonderau ym mhrofiad dysgu'r myfyriwr (paragraff 1.1.4).
- Lledaenu arferion da mewn dysgu ac addysgu, yn enwedig dysgu wedi'i wella gan dechnoleg (paragraff 3.1.3).
- Y cysylltiadau cryf mewn adrannau academaidd rhwng gwaith ymchwil, addysgu a dysgu'r myfyrwyr (paragraff 3.2.2).
- Yr ymrwymiad i gydnabod a gwobrwyo rhagoriaeth mewn addysgu (paragraff 3.3.3).
- Y datblygiad a'r gefnogaeth sydd ar gael i staff academaidd (paragraff 3.3.5).
- Y gefnogaeth a'r datblygiad sydd ar gael i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig (paragraff 6.2.1).

Canfyddiadau manwl am Brifysgol Aberystwyth

Mae'r adran hon yn esbonio canfyddiadau allweddol yr adolygiad yn fwy manwl. Mae'n rhoi digon o dystiolaeth i gefnogi ac egluro beirniadaethau, datganiadau ac argymhellion y tîm adolygu.

Mae termau a allai fod yn anghyfarwydd i rai darllenwyr wedi'u cynnwys mewn rhestr termau byr ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae [rhestr termau](#)⁴ llawnach ar gael ar wefan ASA, a gallwch weld diffiniadau ffurfiol o dermau penodol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr ar gyfer y [dull adolygu](#), ac hefyd ar wefan ASA.⁵

1 Fframwaith rheoli academiaidd

1.1 Strwythur y pwyllgorau a'r rheolaeth

1.1.1 Y Senedd yw awdurdod academiaidd pennaf y Brifysgol ac mae wedi'i chefnogi gan 11 pwyllgor: Pwyllgor Materion Academiaidd (PMA), Bwrdd Graddau Ymchwil, Pwyllgor Rheolau a Rheoliadau, Pwyllgor Cynnydd Academiaidd, Pwyllgor Recriwtio, Pwyllgor Gwasanaethau Cymorth i Fyfrwyr, Pwyllgor Ehangu Cyfranogiad, a'r tri Bwrdd Cyfadrannau. Mae'r Senedd yn goruchwyllo profiad y myfyrwyr drwy'r cyfadrannau, sy'n derbyn adroddiadau gan bwyllgorau dysgu ac addysgu adrannol.

1.1.2 Mae'r fframwaith pwyllgorau wedi'i gyflenwi gan strwythur uwch reolwyr, sydd wedi'i arwain gan yr Is-Ganghellor sy'n cadeirio'r Senedd, ac wedi'i gefnogi gan bedwar Dirprwy Is-Ganghellor sydd, rhyngddynt, yn cadeirio'r PMA, y Bwrdd Graddau Ymchwil, y Pwyllgor Gwasanaethau Cymorth i Fyfrwyr a'r Pwyllgor Ehangu Cyfranogiad. Mae'r Brifysgol yn caniatáu ar gyfer cynrychiolwyr myfyrwyr ar bob un o bwyllgorau mawr y Brifysgol. Yn yr adrannau, mae pwyllgorau ymgynghorol staff-myfyrwyr yn eu lle i fyfrwyr leisio pryderon. Rhoddir gwybod am ddeilliannau'r pwyllgorau ymgynghorol hyn i fyrddau adrannol neu bwyllgorau dysgu ac addysgu.

1.1.3 Mae gan bob cyfadrannau ddeon a, thrwy gydweithio drwy Swyddfa'r Deoniaid, mae gan y deoniaid rôl ganolog yn y broses o gynnal ansawdd a safonau. Mae'r cyfadrannau'n adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd, ac mae'r deoniaid, fel Cadeiryddion y Cyfadrannau, yn adrodd hefyd i'r PMA ar faterion ansawdd. Mae gan y Brifysgol hefyd Ddeon Astudiaethau Uwchraddedig sydd â rôl draws-sefydliadol ar gyfer materion ymchwil. Yr Ysgrifennydd Academiaidd sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth weinyddol y gwaith o sicrhau ansawdd.

1.1.4 Nododd y tîm adolygu bod Swyddfa'r Deon wrthi'n gwneud rôl sy'n datblygu sef ymdrin â meysydd o anghysondeb o fewn a rhwng cyfadrannau. Gwelodd y tîm dystiolaeth bod y deoniaid, trwy weithio gyda'r Dirprwy Is-Ganghellor (Cadeirydd y PMA) a'r Ysgrifennydd Academiaidd, yn gwella cysondeb profiad dysgu'r myfyrwyr ar draws y sefydliad. Roedd y tîm o'r farn bod dull integredig yr uwch-reolwyr academiaidd o ostwng anghysonderau ym mhrofiad dysgu'r myfyriwr yn **nodwedd o arfer da**.

1.1.5 Mae'r Brifysgol yn dogfennu'n glir ei gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu ei darpariaeth addysg uwch ac mae'r rhain yn berthnasol i'r holl raglenni, dim ots beth yw eu dull darparu. Gwelodd y tîm adolygu nifer o adolygiadau adrannol ac enghreifftiau

⁴ www.qaa.ac.uk/aboutus/rhestr/pages/default.aspx

⁵ Gwelwch nodyn 3.

o gymeradwyo rhaglenni mewnol, ac mae'n cadarnhau y defnyddir arbenigwyr allanol wrth gymeradwyo modiwlau a rhaglenni ac wrth wneud adolygiadau adrannol.

1.1.6 Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn gweithredu 10 rhaglen Dysgu o Bell Hyblyg o'i Hadran Astudiaethau Gwybodaeth, a phedair rhaglen Dysgu o Bell Hyblyg gan ei Hadran y Gyfraith a Throsedddeg. Ar amser yr ymweliad adolygu, roedd 900 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar draws y 14 rhaglen. Mae'r gwaith o gymeradwyo a monitro dysgu o bell yn dilyn gweithdrefnau safonol y Brifysgol. Canfu'r tîm adolygu nad oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol ar gyfer cymeradwyo darpariaeth dysgu o bell ac nad yw prosesau cymeradwyo dysgu o bell bob amser yn cynnwys ystyriaeth o'r adnodd dysgu penodol a gofynion cefnogaeth myfyrwyr sydd gan ddysgwyr o bell, gan gynnwys: sicrwydd a dibynadwyedd y system ddarparu; pa mor briodol yw'r dulliau e-ddysgu; ac ansawdd defnyddiau astudio. Er bod y tîm o'r farn, ar sail y dystiolaeth a welwyd, bod gweithredoedd arferol dysgu o bell hyblyg yn gweithio, mae o'r farn y byddai'n **fuddiol** i'r Brifysgol adolygu'r broses gymeradwyo ar gyfer darpariaeth dysgu o bell, gan dalu sylw dyledus i'r *Cod ymarfer, Adran 2: Darpariaeth gydweithredol a dysgu hyblyg a dosranedig (gan gynnwys e-ddysgu)*.

1.2 Defnydd o'r Seilwaith Academaidd

1.2.1 Mae'r Brifysgol yn nodi ei bod yn defnyddio'r Seilwaith Academaidd yn weithredol fel pwynt cyfeirio allanol a bod newidiadau i'r *Cod ymarfer* yn cael eu hystyried gan yr adran berthnasol, academaidd neu wasanaeth, ar gyngor y Swyddfa Academaidd.

1.2.2 Gwelodd y tîm adolygu bod y Brifysgol wedi dechrau ymdrin â'r Cod Ansawdd newydd, a nododd bod y PMA wedi gofyn i'r Swyddfa Academaidd a'r deoniaid ystyried gweithdrefnau arholi allanol yng nghyd-destun y Cod Ansawdd diwygiedig. Mewn perthynas â'r *Cod Ymarfer* cyfredol canfu'r tîm nad yw'r ymgysylltiad wedi bod yn systematig efallai. Yn ogystal â bod angen ail edrych ar arferion mewn perthynas â'r *Cod ymarfer, Adran 2* (gwelwch baragraff 1.1.6), ni allai'r tîm ganfod tystiolaeth o fonitro rheolaidd o'r polisi derbyn i sicrhau ei fod yn digwydd yn unol â'r fframwaith rheoliadol. O 2010 roedd rhywfaint o sylw wedi'i dalu i adolygu'r polisi derbyn i fyfyrwyr gydag anabledau, ond ar amser yr adolygiad nid oedd fersiwn wedi'i ddiweddarau o'r polisi ar gael. Yng nghyd-destun y dystiolaeth sydd ar gael iddo, mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fanteisiol** i'r Brifysgol wneud adolygiad rheolaidd o'r polisi derbyn.

1.2.3 Canfu'r tîm adolygu bod meincnodau pwnc yn chwarae rôl arwyddocaol mewn hysbysu cynllun rhaglenni a'r drefn o'u cymeradwyo. Mae gofyn hefyd i arholwyr allanol adrodd ar ymgysylltiad rhaglenni gyda meincnodau perthnasol yn eu hadroddiad blynyddol i'r Brifysgol. Ar ôl gweld sampl o amrywiol ddisgrifiadau modiwlau ac ystyried trafodaethau ar ddilyniant drwy'r lefelau o fewn rhaglenni, daeth y tîm i'r casgliad y byddai'n **fanteisiol** i'r sefydliad sicrhau bod yr holl ganlyniadau dysgu'n adlewyrchu'r FHEQ yn briodol.

1.2.4 Canfu'r tîm adolygu bod y Brifysgol yn cyhoeddi manylebau rhaglenni ar ei gwefan ac yn darparu profforma i'w ddefnyddio gan staff. Er bod y rheiny a welwyd gan y tîm mewn cysylltiad â chymeradwyo rhaglenni'n gyflawn, doedd hynny ddim bob amser yn wir am y rheiny a gyhoeddwyd ar-lein (gwelwch baragraff 7.1.2).

1.3 Casgliad

1.3.1 Yng nghyd-destun y dystiolaeth a ystyriwyd, gallai'r tîm adolygu gadarnhau bod y Brifysgol yn gwneud defnydd priodol o'r Seilwaith Academaidd. Ond, mae'r tîm yn tynnu sylw'r Brifysgol at yr argymhellion a gafwyd ym mharagraffau 1.1.6, 1.2.2 a 1.2.3 mewn perthynas ag adolygiad rheolaidd o'r polisi derbyn, cymeradwyaeth ac adolygiad y ddarpariaeth dysgu o bell, a sicrhau bod canlyniadau dysgu'n adlewyrchu'n llawnach y disgwyliad ynglŷn â chynnydd a lefel rhaglenni fel y maent wedi'u mynegi yn y FHEQ.

1.3.2 Canfu'r tîm hefyd bod y Brifysgol wedi mapio ei phrosesau yn erbyn y *Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop* gan Gymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop (ENQA).

2 Safonau academiaidd

2.1 Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer sicrhau safonau'r dyfarniadau?

2.1.1 Mae gan y Brifysgol amrywiaeth o ddulliau o sicrhau safonau ei dyfarniadau. Mae arbenigwyr allanol yn rhoi cyngor am raglenni wrth iddynt gael eu datblygu a'u cymeradwyo. Mae'r broses gymeradwyo'n cynnwys cynhyrchu manyleb rhaglen, sy'n rhoi manylion y cynnwys eang, y strategaeth asesu a chanlyniadau dysgu'r dyfarniad. Caiff y manylebau rhaglenni eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol. Mae'r broses yma o ddatblygu a chymeradwyo'r rhaglenni'n sefydlu safonau dyfarniadau'r Brifysgol.

2.1.2 Mae dull y Brifysgol o fonitro rhaglenni'n arbennig o drwyadl ac mae'n cynnwys ystyriaeth fanwl o fodiwlau unigol. Roedd yr un broses yn berthnasol i waith monitro rhaglenni darpariaeth gydweithredol y Brifysgol. Nododd y tîm adolygu y gallai monitro blynyddol arwain at newidiadau a diweddarau sylweddol i fodiwlau a rhaglenni ar lefel adrannol. Fodd bynnag, ni chanfu'r tîm unrhyw dystiolaeth o fecanwaith i werthuso effaith gyffredinol y newidiadau bach niferus i strwythurau modiwlau a rhaglenni. Felly, mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fuddiol** i'r Brifysgol roi systemau yn eu lle i ddarparu goruchwyliaeth ganolog ar effaith newid cronol ar raglenni.

2.2 Asesu

2.2.1 Mae rheolau dyfarnu a chynnydd ar gyfer graddau israddedig yn gyffredin ar draws cyfadranau. Mae'r rheoliadau wedi'u mapio yn erbyn y *Cod ymarfer*. Maent hefyd wedi'u cyfeirio'n glir yn erbyn y FHEQ a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC), ac yn adlewyrchu gofynion y cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio y mae'r Brifysgol yn rhyngweithio â nhw. Mae Llawlyfr Ansawdd y Brifysgol yn cynnwys datganiad o bolisi asesu sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau amrywiol gyrrff mewn perthynas â gweithgareddau asesu, yn cynnwys gweithdrefnau, dychwelyd gwaith a aseswyd ac adborth. Penderfynir ar weithrediad y rheolau a'r polisiau yma ar lefel adrannol.

2.2.2 Nododd y tîm adolygu bod strwythurau rhaglen ar gyfer cynnydd academiaidd a deallusol drwy raglen yn amrywio ar draws adrannau, gyda rhai yn mabwysiadu strwythur lle mae lefel o astudiaeth yn cyfateb â'r flwyddyn astudio, ac eraill yn mabwysiadu strwythur lle mae myfyrwyr yn symud o lefel 4 yn eu blwyddyn gyntaf o astudio i lefel 6 yn eu hail a'u trydedd flwyddyn. Canfu'r tîm bod y strwythur hwn wedi'i fireinio ymhellach mewn rhai achosion, gyda rhai modiwlau lefel 6 ar gael i fyfyrwyr mewn blwyddyn benodol o astudio yn unig. Nododd y tîm y gallai myfyrwyr ar raglen anrhydedd cyfun brofi'r ddau fath yma o strwythur rhaglen.

2.2.3 Canfu'r tîm adolygu bod gwahanol arferion adrannol wedi arwain at broblemau gyda gweithredu rheolau cynnydd sydd wedi'u llunio i sicrhau bod myfyrwyr sy'n graddio wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu'n briodol i lefel a gofynion penodol dyfarniad arbennig. Nododd y tîm hefyd bod manylion arferion a gweithdrefnau asesu a ddarperir i fyfyrwyr gan adrannau'n amrywio'n sylweddol, a bod myfyrwyr ar raglenni anrhydedd cyfun yn dod yn ymwybodol o'r gwahanol reolau asesu sy'n berthnasol iddynt wrth iddynt barhau â'u rhaglenni astudio.

2.2.4 Er bod y Brifysgol wedi cydnabod bod angen symleiddio'r rheoliadau cynnydd o hyd, byddai'r tîm adolygu yn ei hystyried yn **fuddiol** i'r Brifysgol adolygu cymhlethdod rheolau, rheoliadau a strwythurau rhaglen i sicrhau mwy o gydraddoldeb ym mhrofiad y myfyrwyr.

2.3 Arholwyr allanol

2.3.1 Pan fydd rhaglen wedi'i chymeradwyo, mae arholwyr allanol yn monitro cynhaliath safonau'r rhaglen honno, a gwneir hyn hefyd drwy'r broses fonitro flynyddol.

2.3.2 Gofynnir i arholwyr allanol ar gyfer rhaglenni a ddysgir drwy gwrs gadarnhau safonau go iawn y dyfarniadau a chyflawniad y myfyrwyr. Cânt hefyd y cyfle i ymdrin ag ymatebion i faterion oedd yn achosi pryder yn y gorffennol, rhoi sylwadau ar gynnwys academaidd mewn perthynas â phwyntiau cyfeirio allanol, a phennu arfer da. Caiff eu hadroddiadau eu dosbarthu i'r Is-Ganghellor, i swyddfeydd y gyfadran ac i benaethiaid adran. Cesglir adroddiadau arholwyr allanol cryno i'w hystyried yn y gyfadran ar gyfer adroddiad dilynol i'r PMA. Gall cynrychiolwyr myfyrwyr weld adroddiadau arholwyr allanol drwy eu haelodaeth ar bwyllgorau cyfadranau a'r PMA.

2.3.3 Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, daeth y tîm adolygu i'r farn bod y Brifysgol yn gwneud defnydd cadarn o'i arholwyr allanol i sicrhau bod safonau ei dyfarniadau'n cael eu cadw a bod ei gweithdrefnau arholi'n cael eu prosesu'n gywir.

2.4 Gwybodaeth rheoli

2.4.1 Yn ogystal ag adborth gan arholwyr allanol, mae'r broses fonitro flynyddol a'r adolygiad adrannol yn cynnwys ystyriaeth o ddata ystadegol. Mae'r Senedd yn derbyn adroddiadau manwl ar dderbyniadau i dywys polisi recriwtio, a rhoddir ystyriaeth eang i'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol o bwyllgorau ar lefel adrannol hyd y Senedd.

2.4.2 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol yn gwneud defnydd systematig o wybodaeth rheoli, yn arbennig i hysbysu recriwtio, cynllunio a phrofiad y myfyrwyr. Ond, o ystyried potensial system gwybodaeth rheoli'r Brifysgol, roedd y tîm o'r farn bod cyfleoedd i wella monitro blynyddol cyflawniad y myfyrwyr. Mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fanteisiol** i'r Brifysgol wneud gwell defnydd o ddata gwybodaeth rheoli i fonitro perfformiad myfyrwyr.

2.5 Casgliad

2.5.1 Canfu'r tîm adolygu bod y Brifysgol yn gweithredu gydag ystyriaeth briodol i'r *Cod ymarfer*, a daeth i'r casgliad bod modd teimlo **hyder** yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academaidd ei ddyfarniadau. Ond, mae'r tîm yn tynnu sylw'r Brifysgol at yr argymhellion a gafwyd ym mharagraffau 4.2.2 a 4.3.2, a arweiniodd y tîm i'r casgliad bod modd teimlo **hyder cyfyngedig** yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academaidd ei ddyfarniadau mewn darpariaeth gydweithredol.

3 Ansawdd cyfleoedd dysgu

3.1 Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cefnogi dysgu?

3.1.1 Rheolir dyraniad yr adnoddau dysgu gan Uwch Dîm Rheoli'r Brifysgol mewn trafodaeth gyda'r Swyddfa Gynllunio. Mae'r Swyddfa Gynllunio'n sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu yn unol ag amcanion strategol y Brifysgol. Ar lefel y Brifysgol, y Gwasanaethau Gwybodaeth (GG) yw ffocws darpariaeth y gwasanaethau gwybodaeth ar draws holl gampysau'r Brifysgol,

yn cynnwys i fyfyrwyr ar raglenni dysgu o bell hyblyg. Mae'r dasg o dargedu buddsoddiad mewn adnoddau llyfrgell wedi'i rhannu rhwng y GG a chynrychiolwyr y GG mewn adrannau academiaidd.

3.1.2 Mae'r tîm cefnogi e-ddysgu'n darparu cefnogaeth dechnegol a phedagogiaidd i staff a myfyrwyr mewn defnyddio technolegau newydd i ddysgu. Mae Grŵp Llywio Dysgu ac Addysgu Ar-lein Aberystwyth (ALTO), a sefydlwyd yn 2005, yn darparu fforwm staff ar gyfer cyfnewid gwybodaeth am ddefnyddio technolegau dysgu mewn dysgu ac addysgu, ac yn adrodd i'r PMA. Darperir adnoddau ar y we ar gyfer rhannu arferion da ac mae hyn wedi'i atodi gan weithgareddau datblygu staff rheolaidd i drafod arferion da sy'n dod i'r amlwg mewn dysgu ac addysgu.

3.1.3 Mae arweiniad clir ar gael i staff a myfyrwyr fel ei gilydd ynglŷn â chael gafael ar adnoddau electronig a'u defnyddio, ac yn ddiweddar cyflwynodd grŵp llywio ALTO'r isafswm presenoldeb sy'n ofynnol gan BlackBoard i sicrhau mwy o gysondeb yn y ffordd y defnyddir y rhith-amgylchedd dysgu yma. Clywodd y tîm adolygu bod y mentrau a gyflwynwyd o ganlyniad i'r prosiect Gwella Dysgu ac Addysgu drwy Dechnoleg (GWELLA), sydd wedi'i ariannu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), wedi'i gynnwys yn llawn ac yn parhau i dderbyn ei adnoddau gan y Brifysgol. Yng nghyd-destun yr holl dystiolaeth sydd ar gael, daeth y tîm i'r casgliad bod lledaenu arferion da mewn dysgu ac addysgu, yn enwedig dysgu wedi'i wella gan dechnoleg, yn **nodwedd o arfer da**.

3.2 Addysgu wedi'i hysbysu gan ymchwil

3.2.1 Mae'r Brifysgol yn credu bod addysgu a arweinir gan ymchwil wedi'i gynnwys ymhob rhaglen. Mae'r prif gyfrifoldeb am addysgu sydd wedi'i hysbysu gan ymchwil yn cael ei ddirprwyo i'r adrannau a goruchwyli'r rhain gan y cyfadrannau. Yn weithdrefnol, mae'r ffurflenni cymeradwyo ar gyfer modiwlau a rhaglenni newydd yn cynnwys cwestiynau penodol am addysgu sydd wedi'i hysbysu gan ymchwil. Yn strwythurol, mae gan bob adran Gyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu, rôl sy'n cynnwys sicrhau bod ymchwil yn hysbysu'r addysgu o fewn yr adran. Anogir pobl i rannu arferion da drwy'r Fforwm Dysgu ac Addysgu, a elwir ac a gadeirir gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Chyflogadwyedd). Mae'r Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd y Brifysgol (GDSYA) hefyd yn rhoi cefnogaeth ac anogaeth gwerthfawr ar gyfer darparu addysgu a arweinir gan ymchwil. Nododd y tîm adolygu bod GDSYA, yn ychwanegol at ei gylch gwaith eang i helpu'n ganolog yng ngweithrediad Strategaeth Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol, yn hwyluso cynllun Cronfa Datblygu Dysgu ac Addysgu Aberystwyth, ac yn trefnu'r Cyfarfod Dysgu ac Addysgu Blynyddol lle sonnir am ganlyniadau'r prosiectau addysgu sydd wedi'i hysbysu gan ymchwil.

3.2.2 Er nad yw'r Brifysgol yn monitro effaith y gwaith ymchwil ar addysgu'n systematig, canfu'r tîm adolygu bod y myfyrwyr yn cydnabod bod y cwricwlwm y maent yn ei astudio a'r addysgu y maent yn ei dderbyn wedi'u hysbysu gan waith ymchwil. Canfu'r tîm adolygu dystiolaeth bod modiwlau arbenigol a ddysgir ac a ddarperir ar lefelau 5 a 6 rhaglen, ond yn arbennig ym mlwyddyn derfynol astudiaeth, yn cario disgwyliad y byddent wedi'u seilio o amgylch gwaith ymchwil a diddordebau gwaith ymchwil staff, ac mae'r un peth yn wir am drefniadau goruchwylio prosiectau. Daeth y tîm i'r casgliad bod y cysylltiadau cryf mewn adrannau academiaidd rhwng gwaith ymchwil, addysgu a dysgu'r myfyrwyr yn **nodwedd o arfer da**.

3.3 Datblygiad staff

3.3.1 Arweiniodd adolygiad diweddar o brosesau dyrchafu at sefydlu meini prawf ar gyfer hyrwyddo staff academiaidd ar sail rhagoriaeth ddangosadwy mewn addysgu. Yn ogystal, mae cyd-Strategaeth Ddysgu, Addysgu ac Ehangu Mynediad newydd y Brifysgol gyda Phrifysgol Bangor yn dangos bwriad i adeiladu ar y system bresennol i ddatblygu a gwobrwyo addysgu

da, a chysylltu'r rhain gydag achrediad yr Academi Addysg Uwch (AAU) a'r Cymrodoriaethau Addysgu Cenedlaethol.

3.3.2 Mae ymrwymiad y Brifysgol i ddatblygiad proffesiynol parhaus i gefnogi gwelliant ansawdd a safonau i'w weld yng ngweithgareddau a rhaglenni GDSYA, ac yn y gwaith a wneir gan y Cydlynedd Dysgu ac Addysgu sy'n rheoli datblygiad proffesiynol i'r staff addysgu.

3.3.3 Mae'r Gronfa Datblygu Dysgu ac Addysgu a weinyddir gan GDSYA yn rhoi cyfle blynyddol i'r staff fidio am gyllid ar gyfer prosiectau dysgu ac addysgu ar raddfa fechan, tra bo'r cynllun Gwobr Addysgu Rhagorol blynyddol yn galluogi nifer o athrawon llwyddiannus i gael eu gwobrwyo bob blwyddyn ar sail eu gallu i ddangos myfyrio beirniadol am eu harferion academaidd. Mae cynllun gwobrwyo cyfochrog yn ei le i wobrwyo cynorthwyr addysgu ôl-raddedig. Mae cynllun pellach yn galluogi staff academaidd sydd wedi cwblhau eu cyfnod prawf i wneud cais am Gymrodoriaeth Dysgu ac Addysgu Prifysgol Aberystwyth, i wella eu datblygiad dysgu ac addysgu, cyfle sy'n gallu helpu aelodau o staff wrth iddynt geisio dyrchafiad i lefel Uwch-ddarlithydd. Mae Dyfarniadau Dysgu wedi'u harwain gan y Myfyriwr yn mynd i gael eu cyflwyno yn 2012-13 drwy Urdd y Myfyrwyr, i gael eu cyllido gan y Brifysgol. Daeth y tîm i'r casgliad bod yr ymrwymiad i gydnabod a gwobrwyo rhagoriaeth mewn addysgu yn **nodwedd o arfer da**.

3.3.4 Caiff staff academaidd yn eu swydd gyntaf, a'r rheiny nad ydynt wedi cwblhau cyfnod prawf mewn manau eraill, eu penodi ar yr amod eu bod yn cael cyfnod prawf o dair blynedd, ac mae'n rhaid iddynt gwblhau Tystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch (TUAAU), y mae rhan ohoni wedi'i hachredu ar wahân gan AAU. Mae staff academaidd ar brawf yn derbyn mentor sy'n cefnogi'r sawl sydd ar brawf ar y TUAAU ac yn eu harsyllu'n addysgu o leiaf ddwy waith yn ystod eu blwyddyn gyntaf. Mae Arsylliad Cymheiriol y Brifysgol o Addysgu yn ofyniad blynyddol i staff sy'n gweithio mewn addysgu ar bob lefel.

3.3.5 Gall y staff academaidd sy'n ceisio dyrchafiad ddefnyddio mentor i'w helpu gyda'r broses yma. Daeth y tîm i'r casgliad bod y datblygiad a'r gefnogaeth sydd ar gael i staff academaidd yn **nodwedd o arfer da**.

3.4 Casgliad

3.4.1 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod modd teimlo **hyder** yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr.

4 Trefniadau cydweithredol

4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn cynnig tair rhaglen addysg uwch drwy drefniadau cydweithredol gyda phartneriaid yn y DU ac mae wedi rhestru wyth trefniad trosglwyddo gyda phartneriaid rhyngwladol. Canfu'r tîm adolygu nad oes strategaeth gydweithredol ar wahân gan y Brifysgol. Mae wedi cymeradwyo Strategaeth Ryngwladol 2011-16 yn ddiweddar.

4.1.2 Mae'r Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfranogiad a Chydweithrediad) yn goruchwyllo partneriaethau cydweithredol yng Nghymru, ac mae'r Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cydweithredu Cyhoeddus a Rhyngwladol) yn gyfrifol am oruchwyllo partneriaethau rhyngwladol, gyda chynghor gan Gyfarwyddwr y Swyddfa Ryngwladol.

4.2 Cymeradwyo partneriaid

4.2.1 Nododd y tîm adolygu bod y PMA yn derbyn rhestr flynyddol o ddarpariaeth gydweithredol, sy'n cynnwys sefydliadau yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn dilyn archwiliad gan y Swyddfa Ryngwladol, roedd y PMA wedi derbyn manylion wyth sefydliad tramor hefyd y mae gan y Brifysgol drefniadau trosglwyddo neu gynnydd â nhw. Nododd y tîm bod y PMA wedi derbyn rhestr hir hefyd o gysylltiadau'r Brifysgol â sefydliadau rhyngwladol, gan gynnwys y rheiny a sefydlwyd ar gyfer cysylltiadau ymchwil a/neu gyfnewidiadau myfyrwyr. Roedd yr amrywiol restrau'n anghyson o ran yr wybodaeth roeddent yn ei darparu am ddyddiadau sefydlu ac adolygu'r partneriaethau ac nid oeddent yn rhoi unrhyw arwydd o nifer y myfyrwyr perthnasol.

4.2.2 Canfu'r tîm adolygu bod yr holl weithgareddau cydweithredol sydd â'r rhaglen yn ganolog iddynt, yn cynnwys trefniadau trosglwyddo a chynnydd, wedi'u llywio gan Femoranda Cytundeb sydd wedi'i lofnodi gan yr Is-Ganghellor. Fodd bynnag, nododd y tîm bod y memoranda sy'n ymwneud â phartneriaid rhyngwladol yn amrywiol eu natur a'u strwythur, a dywedwyd eu bod yn gyfieithiadau o fersiynau Tsieineaidd oedd wedi cael eu datblygu dros amser. Roedd rhai o'r memoranda wedi'u lofnodi gan yr Is-Ganghellor a Llywydd y partner, tra bo eraill heb eu lofnodi a'u dyddio, roedd rhai wedi'u lofnodi'n ôl-weithredol ac roedd un arall wedi'i lofnodi gan Bennaeth Adran. Roedd rhai o'r memoranda'n nodi hyd y cytundeb; nid oedd eraill yn nodi hynny. Yn dilyn hynny, dywedodd y Brifysgol bod y rhain wedi'u 'cynnig dim ond fel esiamplau o waith sy'n parhau', safle nad oedd yn gwneud pethau'n fwy eglur i'r tîm. Hefyd canfu'r tîm anghysondeb mewn perthynas â'r trefniadau cydweithredol gyda sefydliadau yng Nghymru, gydag un trefniant etholfraint, fel y maent wedi'u cyflwyno i'r tîm, yn ymddangos fel petaent wedi'u llywio gan Femorandwm Cydweithrediad heb ei lofnodi a'i ddyddio. Yn dilyn yr adolygiad, mae'r Brifysgol wedi sicrhau'r tîm bod fersiwn wedi'i lofnodi o'r Memorandwm hwn ar gofnod. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fuddiol** i'r Brifysgol ddatblygu a chyhoeddi cofrestr gynhwysfawr o weithgareddau partneriaeth gydweithredol.

4.3 Monitro ac adolygu mewn darpariaeth gydweithredol

4.3.1 Mae'r Brifysgol o'r farn bod y mecanweithiau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau darpariaeth gydweithredol wedi'u hintegreiddio gyda'r rheiny sydd yn eu lle ar gyfer darpariaeth y Brifysgol. Nododd y tîm adolygu nad oedd Llawlyfr Ansawdd y Brifysgol yn cyfeirio'n benodol at weithgareddau cydweithredol, ac nid oedd hi'n ymddangos i'r tîm chwaith bod unrhyw ganllaw wedi'i gyhoeddi i'r staff ar ddedol, sefydlu a sicrhau ansawdd partneriaethau cydweithredol addysgol. Daeth y tîm i'r casgliad nad oes dealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau sy'n angenrheidiol i sicrhau ansawdd darpariaeth gydweithredol. Mewn perthynas ag un drefn gydweithredol yng Nghymru, nododd y tîm bod gofyniad gan y Brifysgol bod yn rhaid hysbysu'r gyfadran berthnasol am weithrediad y ddarpariaeth gydweithredol drwy'r broses fonitro flynyddol a'i ail gymeradwyo drwy'r broses Adolygiad Adrannol. Gwelodd y tîm dystiolaeth o fonitro'r ddarpariaeth gydweithredol yn flynyddol ar lefel y rhaglen a daeth i'r casgliad bod y derbyniadau, cyfleoedd dysgu a safonau a gyflawnir gan fyfyrwyr yn y drefn hon yn ddiogel. Roedd hefyd rywfaint o dystiolaeth yn adroddiad y Deon i'r gyfadran bod y rhaglen gydweithredol hon yn gweithredu'n llwyddiannus. Fodd bynnag, ni allai'r tîm gael hyd i unrhyw dystiolaeth o adrodd am weithrediad yr etholfraint yng nghofnodion y gyfadran yn ystod y tair blynedd flaenorol, ac ni allai'r tîm ddod o hyd i benderfyniad ffurfiol i barhau'r etholfraint mewn unrhyw ran o'r ddogfennaeth ar gyfer yr Adolygiad Adrannol perthnasol. Am nad oedd polisi cydweithredol, roedd hi'n amlwg i'r tîm mai dim ond ar lefel rhaglen y cafodd y ddarpariaeth gydweithredol hon ei monitro, ac nid oedd unrhyw oruchwyliaeth o'r bartneriaeth ar gael ar lefel sefydliadol. Daeth y tîm i'r casgliad nad oedd hi'n bosibl i'r PMA neu'r Senedd ffurfio barn am effeithiolrwydd gweithrediad yr etholfraint yma, oedd yn cynnwys hyd at 35 o fyfyrwyr y flwyddyn, ac nid oedd y naill gorff na'r llall wedi cael gwahoddiad chwaith i gymeradwyo parhad y drefn yn ffurfiol.

4.3.2 Roedd y tîm adolygu'n deall bod darpariaeth gydweithredol y Brifysgol yn fach ei graddfa a bod prif ffocws partneriaethau rhyngwladol y dyfodol ar waith ymchwil, trosglwyddo gwybodaeth a chyfnewidiadau staff/myfyrwyr. Fodd bynnag, o ystyried proffil cydweithredol y Brifysgol sydd â'r potensial i ddatblygu yng Nghymru, a'r awydd i ddatblygu a chynyddu trefniadau cynnydd rhyngwladol, daeth y tîm i'r casgliad bod angen i'r Brifysgol fyfyrion ar gadernid y trefniadau presennol. Mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fuddiol** i'r Brifysgol ddarparu a gweithredu arweiniad gweithdrefnol cynhwysfawr ar y ddarpariaeth partneriaethau cydweithredol.

4.4 Casgliad

4.4.1 Canfu'r tîm adolygu nad oes gan y Brifysgol, ar y cyfan, fframwaith cadarn ar gyfer rheoli ei threfniadau cydweithredol ac nad yw'n gweithredu gydag ystyriaeth briodol i'r *Cod ymarfer*. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad, ar sail y dystiolaeth oedd ar gael iddo, y gellir teimlo **hyder cyfyngedig** yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academiaidd ei ddyfarniadau mewn darpariaeth gydweithredol.

5 Gwella ansawdd

5.1.1 Mae'r Brifysgol o'r farn ei bod ar flaen y gad o ran gwella'r amgylchedd dysgu ac addysgu yng Nghymru, ac mae'n bwriadu darparu addysgu rhagorol mewn amgylchedd dysgu cefnogol. Mae Strategaeth Dysgu ac Addysgu presennol y Brifysgol yn cynnwys pwyslais ar wella'r seilwaith dysgu ac addysgu, a hybu a gwobrwyo rhagoriaeth ac arloesi mewn dysgu ac addysgu. Goruchwylir y gwelliant gan y PMA, sy'n monitro'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu a bydd yn monitro'r cyd-Strategaeth Dysgu ac Addysgu (2012-14) y mae'r Brifysgol wedi'i datblygu gyda Phrifysgol Bangor.

5.1.2 Mae'r strwythurau ffurfiol sy'n cefnogi dull y Brifysgol o wella yn cynnwys rôl flaenllaw i ddeoniaid, sy'n cynnal yr oruchwyliaeth ar wella ansawdd ar lefel gyfadranol, gan adrodd ar welliant a materion dysgu ac addysgu drwy eu cyfeirio ar i fyny at y PMA. Clywodd y tîm adolygu bod deoniaid yn cwrdd ag adrannau, fel sy'n ofynnol, i drafod cynnydd ar flaenoriaethau gwella dysgu ac addysgu adrannau a'u haliniad ag agendau gwella sefydliadol. Mae cofnodion Byrddau Cyfadran yn dangos bod trafodaeth reolaidd am faterion gwella sefydliadol ac adrannau.

5.1.3 Mae adrannau, drwy eu penaethiaid, yn chwarae rôl allweddol mewn darparu a gweithredu Strategaeth Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol, a chânt eu cefnogi yn hyn o beth gan eu Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu a Phwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r adrannau. Nododd y tîm adolygu bod Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu'n ymddangos yn effeithiol o ran codi blaenoriaethau lefel prifysgol ar lefel adrannol. Roedd hi'n amlwg hefyd i'r tîm adolygu bod Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu adrannol yn cyfathrebu gyda phwyllgorau ymgynghorol staff-myfyrwyr ar faterion a godwyd mewn manau eraill yn y Brifysgol, neu gan y pwyllgorau ymgynghorol staff-myfyrwyr eu hunain.

5.2 Casgliad

5.2.1 Canfu'r tîm adolygu bod y Brifysgol yn prysur ymgysylltu â'r adrannau a'r cyfadranau yn y broses o weithredu ei hagenda i wella profiad y myfyrwyr.

6 Trefniadau i fyfyrwyr ôl-raddedig

6.1.1 Mae gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cydweithredu Cyhoeddus a Rhyngwladol) gyfrifoldeb rheoli strategol a gweithredol dros faterion ymchwil. Mae'r cyfrifoldeb am reolaeth a goruchwyliaeth weithredol ganolog ar faterion uwchraddedig, yn arbennig hyfforddiant ymchwil a monitro ymchwil, yn sefyll gyda'r Deon a'r Dirprwy Ddeon Astudiaethau Uwchraddedig.

6.1.2 Mae'r Brifysgol yn gweithredu system o Bwyllgorau Monitro Ymchwil ar draws cyfadranau, sy'n adrodd i'r Bwrdd Graddau Ymchwil, is-bwyllgor i'r Senedd. Mae Pwyllgorau Monitro Ymchwil yn gyfrifol am sicrhau bod adrannau, drwy eu Pwyllgorau Materion Uwchraddedig, yn monitro cynnydd myfyrwyr ôl-raddedig yn effeithiol a bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu gwneud ar faterion o'r fath i Bwyllgorau Monitro Ymchwil. Mae gan y Bwrdd Graddau Ymchwil gyfrifoldeb cyffredinol am ansawdd a safon rhaglenni gradd ymchwil a phrofiad y myfyrwyr, ac mae'n goruchwyllo ymgeisiaeth am raddau ymchwil o'r cofrestriad i'r arholiad. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y mecanweithiau adrodd a strwythurau sydd yn eu lle'n sicrhau bod gan y Brifysgol oruchwyliaeth glir ar ei myfyrwyr graddau ymchwil.

6.1.3 Nododd y tîm adolygu bod rhaglen ymsefydlu gyffredin wedi'i threfnu'n ganolog i'r holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig newydd, lle caiff anghenion datblygiad y myfyrwyr eu hasesu. Rhoddir copi i bob myfyriwr o'r Llawlyfr Hyfforddiant Ymchwil sy'n cynnwys gwybodaeth am broses ymsefydlu ac argaeledd modiwlau a gweithdai sydd wedi'u darparu'n ganolog. Mae hyn wedi'i gyflenwi ar lefel adrannol gan gyfarfodydd ymsefydlu sydd wedi'u trefnu gan y prif oruchwyllydd. Mae'r gwaith goruchwyllo'n cychwyn yn wythnos gyntaf y myfyriwr, ac fel arfer cynhelir cyfarfodydd goruchwyllo bob pythefnos. Hysbysir gweithredoedd y timau goruchwyllo gan weithdrefnau trawsadrannol. Mae'r holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn derbyn, pan gychwynnant, gopi o'r Cod Ymarfer ar gyfer Uwchraddedigion Ymchwil, sy'n rhoi manylion am ddisgwyliadau a chyfrifoldebau'r myfyriwr a'r goruchwyllydd.

6.1.4 Archwiliodd y tîm adolygu drefniadau a wnaed gan y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig hynny a ddefnyddir gan eu hadran i wneud dyletswyddau addysgu, yn cynnwys gweithgareddau dangosiad, fel Cynorthwywyr Addysgu Graddedig. Clywodd y tîm bod gofyn i'r holl Gynorthwywyr Addysgu Graddedig gwblhau hyfforddiant ar gyfer y rôl yma.

6.2 Casgliad

6.2.1 Yn gyffredinol, canfu'r tîm adolygu bod gan y Brifysgol fframwaith cadarn ar gyfer ei threfniadau i fyfyrwyr ôl-raddedig. Mae'r amgylchedd ymchwil a phrofiad ymchwil ôl-raddedig yn cyflawni disgwyliadau'r *Cod ymarfer, Adran 1: Rhaglenni ymchwil ôl-raddedig* yn llawn. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y gefnogaeth a'r datblygiad sydd ar gael i fyfyrwyr ôl-raddedig yn **nodweddd o arfer da**.

7 Gwybodaeth gyhoeddus

7.1.1 Canfu'r tîm adolygu bod gan y Brifysgol weithdrefnau ar waith i wirio cywirdeb gwybodaeth gyhoeddus, a'i bod yn gwerthuso effeithiolrwydd ei gwybodaeth gyhoeddus drwy adborth rheolaidd y myfyrwyr. Mae'r Brifysgol wedi sefydlu e-adnoddau i ddarparu fyfyrwyr ac i fyfyrwyr cyfredol mewn perthynas â modiwlau, cynlluniau astudio a chynlluniau rhaglen. Mae'r myfyrwyr hefyd yn derbyn llawlyfrau adrannol yn cynnwys gwybodaeth benodol, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol gan yr adrannau ac yn gyfnodol yn rhan o'r broses Adolygu Rhaglenni ac Adrannau. Nododd y tîm bod mwyafrif y myfyrwyr yn ystyried bod y wybodaeth a ddarperir yn gywir a defnyddiol.

7.1.2 Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi manylebau rhaglenni ar ei gwefan. Fodd bynnag, canfu'r tîm adolygu nad yw'r manylebau rhaglenni a gyhoeddwyd oll yn gyflawn ac felly mae o'r farn y byddai'n **fuddiol** i'r Brifysgol sicrhau bod manylebau rhaglenni a gyhoeddir ar y we'n gyflawn ac yn gyfredol.

7.1.3 Mewn perthynas â darpariaeth gydweithredol, nododd y tîm bod y wybodaeth a ddarperir gan y Brifysgol ar ei gwefan mewn perthynas â'i pherthnasoedd cydweithredol yn anghyflawn, a bod y wybodaeth a ddarperir gan ei phartneriaid yn aneglur hefyd weithiau.

Mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fuddiol** i'r Brifysgol sicrhau bod y Brifysgol a'i phartneriaid yn cyhoeddi gwybodaeth gywir am ddarpariaeth gydweithredol.

7.1.4 Mae CCAUC wedi cyhoeddi canllawiau ar gyhoeddi costau'r cyrsiau'n llawn. Nododd y tîm adolygu bod costau'r cyrsiau wedi'u cynnwys yn y prospectws cyfredol a bod modd eu gweld drwy gyfrwng Siarter y Myfyrwyr.

7.2 Casgliad

7.2.1 Canfu'r tîm adolygu bod y wybodaeth a gyhoeddir gan y Brifysgol mewn perthynas â'i darpariaeth gartref yn gyffredinol gywir, cynhwysfawr a dibynadwy. Mae'r Brifysgol wedi cyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg ac mae'n cydymffurfio â *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*. Ond, mae'r tîm yn tynnu sylw'r Brifysgol at yr argymhellion ym mharagraffau 7.1.2 a 7.1.3.

Atodiad A: Ynghylch Prifysgol Aberystwyth

Sefydlwyd Prifysgol Aberystwyth (y Brifysgol) ym 1872. Rhoddwyd Siarter Frenhinol iddi ym 1889 a daeth yn un o aelodau sylfaenol Prifysgol Cymru (PC) ym 1893, ac yn ei henw hi y cynigiodd ei graddau wedyn. Cyn hynny roedd yn dyfarnu graddau allanol Prifysgol Llundain. Agorodd y neuadd breswyl gyntaf yn y DU i fyfyrwyr benywaidd ym 1895 ac roedd yn arloesol yn y ffaith ei bod yn addysgu rhai disgyblaethau oedd yn newydd i brifysgolion - yn nodedig oedd Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym 1919 a Hanes Cymru ym 1931. Derbyniodd y Brifysgol ei phwerau dyfarnu graddau a addysgir a'i graddau ymchwil ei hun yn 2007 (oedd yn ddi-rym ganddi hyd 2010) yn dilyn adolygiad gan ASA yn 2005-06, oedd yn cyd-daro ag adroddiad Adolygiad Sefydliadol ASA, a gyhoeddwyd yn 2007. Ers 2009, mae'r holl fyfyrwyr sydd wedi cael lle yn y Brifysgol wedi'u cofrestru ar gyfer dyfarniadau Prifysgol Aberystwyth yn hytrach na dyfarniadau Prifysgol Cymru yn dilyn tynnu'r Brifysgol allan o Brifysgol Cymru. Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli ar hyn o bryd ar bedwar safle: Penglais, Llanbadarn, amrywiol adeiladau yng nghanol tref Aberystwyth, a safle ymchwil yng Ngogerddan. Mae'r Strategaeth Ystadau'n rhagweld crynodiad o addysgu ym Mhenglais.

Yn 2011-12, roedd gan y Brifysgol oddeutu 9,000 o fyfyrwyr llawn amser, yn cynnwys 8,050 o fyfyrwyr israddedig, 590 o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a 270 o fyfyrwyr ymchwil. Yn ogystal â hynny roedd 2,610 o fyfyrwyr llawn amser yn cynnwys 860 oedd yn astudio drwy ddysgu o bell, a 2,700 o fyfyrwyr pellach yn dilyn cyrsiau addysg bellach mewn Cymraeg i Oedolion a gynigir mewn cydweithrediad â phartneriaid. Roedd oddeutu 665 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn nad oeddent yn fyfyrwyr UE/cartref, ac mae'r ffigur yma'n cynnwys 539 o fyfyrwyr llawn amser a 270 o fyfyrwyr rhan amser, y mae 387 ohonynt yn ôl-raddedig. Y boblogaeth o fyfyrwyr UE/cartref llawn amser blwyddyn gyntaf oedd y fwyaf yn hanes y Brifysgol, ac mae'r Brifysgol wedi rhoi trefniadau yn eu lle i reoli derbyniad y dyfodol i fod o gwmpas nifer rheoli'r CCAUC ar gyfer 2012-13, a chynyddu poblogaeth y myfyrwyr drwy dargedu adnoddau recriwtio at fyfyrwyr ôl-raddedig a rhyngwladol. Mae gan y Brifysgol ymrwymiad arbennig o gryf i'r Iaith Gymraeg ac mae'n gweithredu amgylchedd dwyieithog sy'n cynnig cyfleusterau cyfieithu mewn pwyllgorau mawr. Mae oddeutu 1,000 o fyfyrwyr llawn amser a 380 o staff yn eu disgrifio eu hunain yn rhugl yn y Gymraeg.

Mae'r trefniadau cyllido diwygiedig ar gyfer sefydliadau yng Nghymru a pholisiau addysg uwch sy'n datblygu gan Lywodraeth Cymru yn achosi i'r Brifysgol adolygu ei phroffil myfyrwyr ac ail-gyflunio rhai o'i pherthnasau gyda sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach yng Nghymru. Werth ei nodi'n benodol mae'r Gynghrair Strategol rhwng Prifysgolion Aberystwyth a Bangor, sy'n ymateb yn rhannol i ymgyrch Llywodraeth Cymru am fwy o gydweithrediad ymysg prifysgolion yng Nghymru. Mynegir y berthynas yma, sydd â'r nod o rannu arferion da, yn bennaf drwy strategaethau cyffredin ar gyfer dysgu, addysgu ac ehangu mynediad. Ar yr un pryd, mae polisiau mewnffurfio Llywodraeth y DU a'r lefel ffi uwch i fyfyrwyr mewn prifysgolion yn Lloegr yn debygol o effeithio ar gynlluniau recriwtio myfyrwyr y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol ddarpariaeth gydweithredol gyfyngedig. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor i hyfforddi athrawon (drwy sefydlu un ganolfan ar y cyd i ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru, a Thystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu); darpariaeth etholfraint gyda Choleg Sir Gâr; Cymraeg i Oedolion gyda cholegau addysg bellach yng Nghanolbarth Cymru; a threfniadau cynnydd/trosglwyddo gyda nifer o bartneriaid rhyngwladol.

Mae'r Cynllun Strategol cyfredol yn rhedeg hyd 2013 ac yn pennu cenhadaeth y Brifysgol fel un sy'n dal i fod yn brifysgol sy'n gallu cystadlu'n rhyngwladol o safbwynt dysgu ac addysgu, sy'n ymdrin â heriau byd-eang ac sy'n ymateb i anghenion y gymuned leol, Cymru a'r byd yn ehangach'. Fodd bynnag, mae cynllun newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2012-17 ac mae'r Brifysgol yn cymryd rhan mewn adolygiad strategol sydd wedi cynnwys proses ymgynghorol

strwythuredig gyda myfyrwyr, staff, Cyngor y Brifysgol a rhanddeiliaid eraill i ail alinio'r cynllun 'gydag uchelgeisiau'r Brifysgol ar gyfer y pum mlynedd nesaf'.

Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn gweithredu drwy 17 o adrannau neu sefydliadau academaidd, sy'n gyfrifol yn bennaf am addysgu, ymchwil a rheoli adnoddau. Mae'r rhain wedi'u grwpio'n dair cyfadran (Y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Gwyddorau Cymdeithasol) a arweinir gan ddeon sydd â chyfrifoldeb yn bennaf am sicrhau ansawdd academaidd. Mae 27 adran gwasanaeth yn cefnogi'r meysydd yma a myfyrwyr a staff yn fwy cyffredinol.

Atodiad B: Ymateb gan Brifysgol Aberystwyth

Mae Prifysgol Aberystwyth yn croesawu'r hyder a fynegwyd gan ASA yn y rheolaeth debygol a'r rheolaeth yn y dyfodol ar safonau academiaidd ei dyfarniadau, ac yn y rheolaeth bresennol a'r rheolaeth yn y dyfodol ar ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'n myfyrwyr. Rydym yn arbennig o hapus bod cymaint o nodweddion o arfer da wedi'u cydnabod, sy'n tanategu ein perfformiad cyson rhagorol mewn mesurau cenedlaethol a rhyngwladol o foddhad myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig; yn arbennig gryfder ein haddysgu a arweinir gan ymchwil, ein chefnogaeth a datblygiad i fyfyrwyr ôl-raddedig, ein lledaeniad gweithredol o arferion dysgu ac addysgu da a'n hymrwymiad cadarn i gydnabod a gwobrwyo rhagoriaeth mewn addysgu ac i ddatblygiad proffesiynol a chefnogaeth i'n staff academiaidd.

Cymerwn yn ddifrifol y feirniadaeth o hyder cyfyngedig a roddwyd mewn perthynas â'r diffyg prosesau rheoli ffurfiol ar ein hystod eithriadol gyfyngedig o ddarpariaeth gydweithredol ac rydym wedi symud yn gyflym i ymdrin â hyn drwy fabwysiadu a gorfodi arferion gorau o'r sector. Edrychwn ymlaen at ddangos bod y brifysgol wedi sefydlu rheolaeth briodol ar ein nifer fechan o gytundebau trosglwyddo. Mae pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol a Phartneriaethau wedi'i sefydlu, dan gadeiryddiaeth yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor, a fydd yn sicrhau hyn.

Rydym yn gwerthfawrogi ymgysylltiad ASA gyda'r brifysgol yn eu rôl fel cyfeillion beirniadol a bydd argymhellion y tîm adolygu'n ein tywys yn y flwyddyn o'n blaenau wrth i ni adolygu ein gweithgareddau sicrhau a gwella ansawdd i sicrhau ein bod yn parhau'n ymatebol i anghenion ein myfyrwyr ac yn parhau i ddarparu profiad dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf.

Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym at dermau yn yr adroddiad hwn sydd efallai'n anghyfarwydd i rai darllenwyr. Mae gan nifer o dermau 'ddiffiniadau gweithredol' ffurfiol hefyd. Gallwch weld rhagor o wybodaeth yn y *Llawlyfr Adolygiad Sefydliadol (Cymru)*, sydd ar gael ar ein gwefan ar:

www.qaa.ac.uk/institutionreports/types-of-review/pages/adolygiad-sefydliadol-cymru.aspx.

Os byddwch eisiau 'diffiniadau gweithredol' ffurfiol o dermau eraill, gwelwch yr adran ar **sicrhau safonau ac ansawdd** ar ein gwefan:

www.qaa.ac.uk/assuringstandardsandquality/pages/default.aspx.

Gallwch weld esboniadau hawdd eu defnyddio o amrediad eang o dermau yn y **rhestr termau** hirach ar wefan ASA: www.qaa.ac.uk/aboutus/rhestr/pages/default.aspx.

Adolygiad Sefydliadol Dull o adolygu a ddefnyddir gan ASA i sicrhau safonau ac ansawdd addysg uwch. Yn y cyhoeddiad hwn, mae'n dynodi'r broses sicrhau ansawdd sy'n berthnasol i sefydliadau yng Nghymru.

ansawdd academaidd Term cyffredinol sy'n cyfeirio at y ffordd mae sefydliadau'n rheoli cyfleoedd dysgu ac addysgu, a pha mor dda maent yn eu rheoli, i helpu myfyrwyr i symud ymlaen a llwyddo.

arholi allanol Y broses a ddefnyddir gan un neu fwy o arbenigwyr annibynnol (**arholwyr allanol**) i roi sylw ar gyflawniad myfyrwyr mewn perthynas â **safonau academaidd** sefydledig ac am agwedd y sefydliad tuag at asesiad, gan felly helpu i sicrhau bod safonau'n gyson a gweithdrefnau asesu'n deg ledled y DU.

arholwr allanol Arbenigwr annibynnol a benodir gan sefydliad i roi sylwadau ar gyflawniad myfyrwyr mewn perthynas â **safonau academaidd** sefydledig ac i edrych ar ddulliau o ymdrin ag asesiad.

beirniadaeth o hyder Beirniadaeth gan un o dimau adolygu ASA mewn Adolygiad Sefydliadol y 'gellir teimlo hyder yn rhesymol yng nghadernid rheolaeth bresennol sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academaidd ei ddyfarniadau ac/neu ar ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr' (dwy feirniadaeth ar wahân, un ar safonau a'r llall ar gyfleoedd dysgu). Ar y llaw arall, gallai'r tîm fynegi 'hyder cyfyngedig' neu 'ddim hyder' yn y materion hyn.

canlyniad dysgu Yr hyn y disgwylir i ddysgwyr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

Cod Ansawdd Term byr am God Ansawdd Addysg Uwch y DU, sy'n cael ei ddatblygu o 2011 i gymryd lle'r **Seilwaith Academaidd** a bydd yn cynnwys ei elfennau allweddol i gyd, ynghyd â phynciau ychwanegol a themâu troswaol.

Cod ymarfer Y *Cod ymarfer ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd mewn addysg uwch*, a gyhoeddir gan ASA: cyfres o ddogfennau rhyngberthynol sy'n rhoi arweiniad i sefydliadau addysg uwch.

credyd(au) Ffordd o fesur a chydabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu rhaglenni astudio addysg uwch, wedi'i fynegi fel 'nifer o gredydau' ar lefel benodol.

cyfleoedd dysgu Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys **rhaglenni astudio** a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academiaidd a phersonol, adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios) a datblygiad staff.

cymorth dysgu Cymorth personol a chyfleusterau a systemau eraill a roddir yn eu lle i helpu myfyrwyr yn eu dysgu.

cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio Cyrff sy'n gosod y safonau meincnod ar gyfer proffesiwn/broffesiynau penodol ac sy'n rheoleiddio'r safonau ar gyfer mynediad i mewn i'r proffesiwn/proffesiynau ac sydd â'r awdurdod i achredu, cymeradwyo neu gydnabod rhaglenni penodol sy'n arwain at y cymhwyster/cymwysterau proffesiynol perthnasol - y mae ganddynt gyfrifoldeb statudol neu reoleiddio amdano/amdanynt efallai.

darpariaeth gydweithredol Term a ddefnyddir i ddisgrifio sut mae sefydliadau'n cydweithio i ddarparu addysg uwch, gan gynnwys cyfleoedd dysgu, cymorth i fyfyrwyr ac asesiad, gan arwain at gymhwyster gan un neu fwy o sefydliadau dyfarnu.

datganiad meincnod pwnc Datganiad a gyhoeddwyd sy'n nodi pa wybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd a sgiliau a ddisgwylir gan y rheiny sy'n graddio ymhob un o'r prif feysydd astudio (yn ymwneud gan fwyaf â graddau baglor), ac sy'n esbonio beth sy'n rhoi ei gydlyniad a'i hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno.

diffiniad gweithredol Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n sefydlu yn union beth mae ASA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adroddiadau.

dysgu o bell Cwrs neu uned astudio nad yw'n cynnwys cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng myfyrwyr a thiworiaid ond, yn lle hynny, mae'n defnyddio technoleg megis y rhyngwyd, mewnwydi, cyfryngau darlledu, CD-ROM a fideo, neu ddulliau traddodiadol o ohebu - dysgu 'o bell'.

ehangu cyfranogaeth Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.

fframwaith Strwythur ffurfiol cyhoeddedig. Gweler hefyd y **fframwaith cymwysterau addysg uwch**.

fframwaith cymwysterau addysg uwch Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academiaidd. Mae ASA yn cyhoeddi'r fframweithiau dilynol: *Y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a'r *Fframwaith ar gyfer cymwysterau sefydliadau addysg uwch yn yr Alban* (FQHEIS).

fframwaith rheoli academiaidd Y strwythur sydd ar waith mewn sefydliad ar gyfer rheoli safonau ac ansawdd academiaidd.

gwelliant Cymryd camau pwrpasol ar lefel sefydliadol i wella ansawdd y **cyfleoedd dysgu**. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau archwilio ac adolygu ASA. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau archwilio ac adolygu ASA.

gwybodaeth gyhoeddus Gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd (y cyfeirir ati weithiau fel bod 'yn eiddo i'r cyhoedd').

manylebau rhaglen Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r **rhaglenni astudio**, yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

meini prawf asesu Y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae marcwyr yn disgwyl i fyfyrwr eu dangos mewn tasg asesu, ac a gymerir i ystyriaeth wrth farcio'r gwaith. Mae'r meini prawf hyn wedi'u seilio ar y canlyniadau dysgu a fwriedir.

modiwl Uned astudio hunangynhwysol, wedi'i strwythuro'n ffurfiol, gyda chyfres eglur a rhesymegol o **ganlyniadau dysgu** a **meini prawf asesu**. Mae rhai sefydliadau'n defnyddio'r gair 'cwrs' i gyfeirio at fodiwlau unigol.

nodwedd o arfer da Agwedd gadarnhaol o'r ffordd y mae sefydliad addysg uwch yn rheoli ansawdd a safonau, y gellid eu gweld fel esiamplau rhagorol i bobl eraill.

rhaglen (astudio) Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

rheoliadau asesu Y rheoliadau sy'n llywio asesiad o raglen astudio, gan gynnwys y cynllun marcio, y marc pasio, y gofynion ar gyfer symud ymlaen i lefelau neu gamau dilynol rhaglen a'r gofynion dyfarnu a dosbarthu (er enghraifft, credydau sydd i gael eu cyflawni a marciau penodol sydd i gael eu hennill).

safon academiaidd trothwy Y safon ofynnol y dylai myfyrwr ei chyrraedd er mwyn ennill cymhwyster neu ddyfarniad penodol, fel y mae wedi'i disgrifio yn y **datganiadau meincnod pwnc** a'r **fframweithiau** cymwysterau cenedlaethol. Mae safonau trothwy'n wahanol i safonau perfformiad y mae angen i fyfyrwr eu cyflawni er mwyn ennill unrhyw ddsbarth penodol o ddyfarniad, er enghraifft gradd baglor o'r radd flaenaf. Gweler hefyd **safon academiaidd**.

safonau academiaidd Y safonau a osodir gan sefydliadau ac a gynhelir ganddynt ar gyfer eu cyrsiau a'r safonau a ddisgwylir ar gyfer eu dyfarniadau. Gweler hefyd **safon academiaidd trothwy**.

safoni Proses a sefydlwyd i sicrhau bod canlyniad asesiad yn deg a dibynadwy a bod meini prawf asesu wedi'u gweithredu'n gyson.

Seilwaith Academiaidd Arweiniad a ddatblygwyd ac a gytunwyd gan y gymuned addysg uwch ac a gyhoeddir gan ASA, a ddefnyddir gan sefydliadau i sicrhau bod eu cyrsiau'n cyflawni disgwyliadau cenedlaethol mewn perthynas â safonau academiaidd a bod amgylchedd addas ar gael i'r myfyrwr allu mynd iddo i ddysgu (ansawdd academiaidd). Mae'n cynnwys pedwar grŵp o bwyntiau cyfeirio: **fframweithiau cymwysterau addysg uwch, datganiadau meincnod pwnc, manylebau rhaglenni** a'r **Cod Ymarfer**. Mae gwaith ar droed (2011-12) i ddiwygio'r Seilwaith Academiaidd fel Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU.

RG 944 09/12

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

Southgate House
Southgate Street
Caerloyw
GL1 1UB

Ffôn 01452 557000
Ffacs 01452 557070
Ebost comms@qaa.ac.uk
Gwefan www.qaa.ac.uk

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2012

ISBN 978 1 84979 595 1

Mae holl gyhoeddiadau ASA ar gael ar ein gwefan www.qaa.ac.uk.

Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786